



Panel Dyfarnu Cymru Adroddiad Blynyddol

Blwyddyn 2016 – 2017

PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom Ni	4
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	7
Adran 3	Crynodeb o'r Achosion	11
Adran 4	Ein Cwsmeriaid	14
Adran 5	Blaenoriaethau Busnes	15
Adran 6	Gwariant	15

Rhagair

Dyma fy ail adroddiad blynyddol fel Llywydd Panel Dyfarnu Cymru. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017.

Ein nod yw sicrhau bod y Panel yn gweithio er budd pawb yng Nghymru sy'n dod o dan ein hawdurdodaeth, drwy ddelio ag unrhyw anghydfodau yn effeithlon ac effeithiol. Yn benodol, rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r anghydfod yn teimlo bod yr anghydfod wedi cael ei ddatrys yn deg o fewn cyfnod byr fel sy'n rhesymol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod yn rhaid i'r cyhoedd ehangach fod yn hyderus y bydd unrhyw dorri ar y Cod Ymddygiad gan aelodau yn cael ei drin yn deg ac mewn modd amserol er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder mewn democratiaeth leol.



Fel y gwelir o'r Adroddiad, nid oes unrhyw thema benodol yn codi o'r ystod eang o anghydfodau a ystyriwyd gan y Panel yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r Llywydd gael y pŵer i ganiatáu ceisiadau i apelio yn codi o benderfyniadau pwyllgorau safonau. Defnyddiwyd y pŵer ar ddau achlysur; yn y ddau achos gwrthodwyd caniatâd i apelio rhai o'r rhesymau a godwyd ar y sail nad oedd unrhyw ragolygon rhesymol o lwyddiant. Mae hyn wedi sicrhau bod gwrandawiadau yn canolbwyntio ar faterion byw yr achos ac yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

Y pwynt arall i'w nodi o'r flwyddyn a aeth heibio yw'r sylw cynyddol gan y cyhoedd a'r wasg a wynebwyd gan y Panel, ynghyd ag ymosodiadau ar ei onestrwydd. Fel corff barnwrol, ni all y Panel wneud sylwadau ar achosion unigol – ei benderfyniadau yw'r unig ddull cyfathrebu ar gyfer esbonio pa gamau a gymerwyd. Wedi dweud hynny, mae'r Panel yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ogystal â phleidiau gwleidyddol, a bydd yn cynnal gwrandawiadau teg ar sail y dystiolaeth a'r gyfraith berthnasol. Gall darllenwyr sydd â diddordeb weld y wybodaeth ar ein gwefan am y Panel a'i brosesau. Mae'n gadarnhaol bod mwy o bobl wedi clywed am ein gwaith.

Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Panel, neu ar gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y Cofrestrwydd.

A handwritten signature in blue ink that reads "C Sharp".

Claire Sharp
Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru

Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr Adran hon:

- Sail ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru (PDC)
- Swyddogaeth PDC
- Rheoliadau PDC
- Proses PDC
- Aelodau PDC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â PDC
- Defnyddio PDC

Sail ar gyfer PDC

Mae Panel Dyfarnu Cymru (PDC) yn driwlynlys annibynnol a sefydlwyd i benderfynu ar honiadau o dorri amodau Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig o gynghorau sir, bwrdeistrefi sirol a chynghorau cymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.

Sefydlwyd PDC dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Swyddogaeth PDC

Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer awdurdod yn darparu cyfres o safonau i'w aelodau a ddisgwylir ganddynt mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r cod ymddygiad yn cynnwys amrywiol ofynion ar sut y dylai aelodau ymddwyn, ac mae'n cynnwys gofynion o ran cydraddoldeb, buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu, gwybodaeth gyfrinachol, adnoddau eu hawdurdod a'r angen i osgoi dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.

Mae gan y PDC ddwy swyddogaeth statudol mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad:

- fffurfio tribiwnlysoedd achos neu driwlynlysoedd achos interim (“Tribiwnlysoedd Achos”) i ystyried **cyfeiriadau** gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ar ôl ymchwilio i honiadau bod aelod wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod; ac
- ystyried **apeliadau** gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad (“Tribiwnlysoedd Apêl”).

Rheoliadau PDC

Mae PDC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a glywir gan PDC yn cael eu trin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron PDC yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i PDC. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Caiff gweithdrefnau PDC eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd).
- Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd), a
- Rheoliadau Archwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd).

Proses PDC

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymateb i gyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu wneud cais am ganiatâd i apelio i PDC lenwi'r ffurflen berthnasol a'i hanfon at PDC.

Mewn gwrandawriad PDC bydd y panel yn cynnwys cadeirydd sy'n gyfreithiol gymwys a 2 aelod lleyg. Gall aelodau sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol hefyd eistedd fel aelodau lleyg. Fel arfer, caiff gwrandawriadau PDC eu cynnal yn gyhoeddus ac mewn lleoliad sy'n agos at ardal yr awdurdod.

Mae PDC yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar wefan PDC. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlysoedd Achos ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. I apelio i'r Uchel Lys, yn gyntaf rhaid cael caniatâd i apelio i'r Uchel Lys gan yr Uchel Lys.

Rhoddir canllawiau a gwybodaeth lawn am PDC a'i weithdrefnau ar wefan y PDC. Fel arall, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth PDC i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech dderbyn cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar dudalen 6.

Aelodau PDC

Gwneir penodiadau i PDC gan Brif Weinidog Cymru ar ôl ystyried argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Llywydd

Mae gan y Llywydd gyfrifoldeb barnwrol dros PDC a'i aelodau.

Aelodau Cyfreithiol

Mae aelodau cyfreithiol yn gyfreithwyr cymwys ac yn gyfrifol am gynnal trafodaethau mewn gwrandawriadau ac am gynghori'r Ysgrifenyddiaeth ar faterion cyfreithiol. Mae aelodau cyfreithiol yn ysgrifennu penderfyniadau PDC ac yn rhoi cyfarwyddiadau lle bo angen.

Aelodau Lleyg

Mae gan aelodau lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith PDC.

Yr Ysgrifenyddiaeth

Yr ysgrifenyddiaeth sy'n bennaf gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd. Mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i PDC. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd a/neu'r aelodau cyfreithiol ynghylch yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau cychwynnol cyn gwrandawrio ar achosion, ac yn rhoi gwybod i'r partion yn ysgrifenedig am y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cadeiryddion, aelodau a defnyddwyr PDC, ac mae yn bresennol mewn gwrandawriadau i helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.



Penodiadau

Ni wnaed unrhyw benodiadau yn ystod y cyfnod hwn, er y penderfynwyd cychwyn y broses o benodi Dirprwy Lywydd i weithredu ar ran y Llywydd os na fydd modd iddi hi gyflawni ei dyletswyddau.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd seminar hyfforddi yn ystod Mehefin 2017. Mae rhaglen reolaidd o werthuso perfformiad ar gyfer aelodau PDC wedi cael ei chwblhau dros flynyddoedd blaenorol. Rhagwelir y bydd y rhaglen nesaf o werthuso perfformiad aelodau PDC yn cychwyn yn ystod blwyddyn 2017/18.

Cysylltu â PDC

I gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth PDC:

Cyfeiriad PDC: Panel Dyfarnu Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Spa Ddwyrain
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Llinell Gymorth y Panel Dyfarnu: 03000 259805

Ffacs y Panel Dyfarnu: 03000 259801

E-bost y Panel Dyfarnu: adjudication.panel@gov.wales

Defnyddio PDC

Mae PDC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cynnal eich gwrandawriad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawriad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen dehonglydd iaith arwyddion i ddod i'r gwrandawriad, byddwn yn trefnu hynny.

Gwneir darpariaeth os bydd gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawriad, unrhyw ofynion eraill o ran mynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawriad.

Er mwyn gallu trefnu i gyfieithwyr/dehonglwyr fod yn bresennol neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan fynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Apeliadau pellach
- Cyflawni mewn perthynas a dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth. Gan fod nifer yr achosion a dderbynnir yn gymharol isel, rhoddir ffigurau am gyfnod o 5 mlynedd i alluogi cymharu.


Dyma'r ystadegau a gaiff eu casglu:

- Nifer y cyfeiriadau a'r apeliadau a dderbyniwyd
- Y math o geisiadau a dderbyniwyd ac a gofrestrwyd
- Nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn derfynol
- Canlyniad y ceisiadau

Graff 2.1: Nifer y cyfeiriadau ac apeliadau a dderbyniwyd fesul blwyddyn




Graff 2.2: Nifer y cyfeiriadau ac apeliadau y penderfynwyd arnynt fesul blwyddyn
Ebrill 2012 – Mawrth 2017




Siart 2.3: Canlyniadau cyfeiriadau ac apeliadau Ebrill 2012 – Mawrth 2017

Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau cyfeiriadau ac apeliadau a benderfynwyd gan y Panel Dyfarnu dros y 5 mlynedd diwethaf.



Graff 2.4: Canran torri amodau yn ôl math Ebrill 2012 – Mawrth 2017



Data gwrandawiadau

Yn ystod 2016-2017, aeth 2 gyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a 2 apêl yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau ymlaen i wrandawriad, gan olygu 6 diwrnod o wrandawiadau:

Math	Hyd (diwrnodau)
Cyfeiriad	3 diwrnod gwrandawriad
Apêl	3 diwrnod gwrandawriad

Hefyd, cynhaliwyd 3 cynhadledd dros y ffôn mewn perthynas â'r achosion hyn.

Apeliadau pellach


Gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Achos Interim ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaed 1 cais am ganiatâd, ond tynnwyd y cais yn ôl yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y caiff gwasanaethau eu darparu, mae gennym ni ddangosyddion perfformiad allweddol sydd â'r nod o fesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym ni gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r adeg y caiff ei wrando neu ei gwblhau (gweler isod). Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid, rydym yn defnyddio dangosydd sy'n deillio o ffurflenni adborth a gyhoeddir pan fydd achos wedi dod i ben (gweler adran 4).

Cyflymder ein gwasanaeth 2016-2017



Cwynion

Derbyniodd PDC 1 gŵyn ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd gan aelod o'r cyhoedd, a llwyddwyd i'w datrys.

Adran 3: Crynodeb o'r achosion

Yn yr adran hon:

- Cyfeiriadau
- Apeliadau

Cyfeiriadau

Yn ystod cyfnod yr adroddiad cynhaliwyd 2 wrandawriad tribiwnlys achos o ganlyniad i gyfeiriadau gan yr Ombwdsmon. Mae crynodebau o'r achosion a benderfynwyd gan PDC i'w gweld isod.

APW/002/2015-016/CT

Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri

Yr honiadau oedd bod cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri drwy ddwyn anfri ar swydd cynghorydd neu ar yr awdurdod drwy ei weithredoedd.

Cododd y digwyddiad pan fu i'r cynghorydd, yn gweithredu'n bersonol, gyffwrdd coes menyw yr oedd yn gwyllo adar gyda hi mewn cuddfan gwyllo adar ar Ynys Sgomer. Fe'i cafwyd yn euog o ymosodiad cyffredin ar 27 Mai 2015.

Canfu'r Tribiwnlys Achos yn unfrydol bod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri fel a ganlyn:

- Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod (paragraff 6 (1) (a)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i benderfyniad unfrydol y dylid atal y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri am gyfnod o 3 mis.

APW/002/2016-017/CT

Cyngor Caerdydd

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Caerdydd drwy ddweud geiriau wrth swyddog o'r cyngor yn dilyn gwrandawriad llys dadleuol. Safbwynt yr Ombwdsmon oedd bod y cynghorydd wedi bwlio'r swyddog, wedi methu â dangos parch ac wedi dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod o ganlyniad i'w weithredoedd.

Cododd y digwyddiad pan aeth y cynghorydd i'r llys i gynorthwyo'i etholwr fel rhan o'i ddyletswydd fel cynghorydd.

Canfu'r Tribiwnlys Achos yn unfrydol bod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Caerdydd fel a ganlyn:

- Rhaid i chi ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill (paragraff 4 (b));
- Rhaid i chi beidio ag ymddwyn fel bwli na harasio unrhyw berson (paragraff 4 (c)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i benderfyniad unfrydol y dylid atal y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Caerdydd am gyfnod o 1 mis.

Apeliadau

Yn ystod y cyfnod adrodd cynhaliwyd dau wrandawriad tribiwnlys apêl o ganlyniad i apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau gan Bwyllgorau Safonau Awdurdodau Lleol. Mae crynodebau o'r achosion a benderfynwyd gan PDC i'w gweld isod.

APW/001/2016-017/AT

Cyngor Cymuned Maenorbŷr

Derbyniwyd apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor safonau bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned Maenorbŷr ac y dylid ei hatal o'i swydd am 2 fis a'i bod yn ofynnol iddi ymgymryd â hyfforddiant.

Yr oedd y pwyllgor safonau wedi canfod bod y cynghorydd wedi torri'r paragraffau canlynol o'r Cod Ymddygiad drwy fethu â datgan buddiant a oedd yn rhagfarnu mewn cais cynllunio y bu iddi siarad a phleidleisio arno yn ystod cyfarfod o'r cyngor cymuned ar 5 Ionawr 2015:

- Lle y bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw beth sy'n fusnes i'ch awdurdod, oni fyddwch wedi derbyn goddefeb gan Bwyllgor Safonau eich awdurdod, rhaid i chi adael yr ystafell, y siambr neu leoliad y cyfarfod sy'n ystyried y busnes (paragraff 14(1)(a)).
- Lle y bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw beth sy'n fusnes i'ch awdurdod, oni fyddwch wedi derbyn goddefeb gan Bwyllgor Safonau eich awdurdod, rhaid i chi beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw (paragraff 14(1)(c)).
- Lle y bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw beth sy'n fusnes i'ch awdurdod, oni fyddwch wedi derbyn goddefeb gan Bwyllgor Safonau eich awdurdod, ni chaniateir i chi gyflwyno unrhyw sylwadau ar lafar mewn perthynas â'r busnes hwnnw (paragraff 14(1)(e)).

Gwnaeth y cynghorydd gais am ganiatâd i apelio i'r Llywydd. Caniatawyd i'r apêl fynd rhagddi ar y sail bod y pwyllgor safonau yn anghywir yn barnu fod ganddi fuddiant a oedd yn rhagfarnu yn y cais cynllunio a bod y gosb a roddwyd yn rhy lem.

Daeth y Tribiwnlys Apêl i benderfyniad unfrydol fod gan y cynghorydd fuddiant a oedd yn rhagfarnu a'i bod wedi torri'r Cod Ymddygiad. Cyfeiriodd y mater yn ôl at y pwyllgor safonau gydag argymhelliad y dylid atal y cynghorydd o'i swydd am 3 mis.

APW/003/2014-015/AT

Cyngor Powys

Derbyniwyd apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor safonau bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Powys ac y dylid ei atal o'i swydd am 5 mis.

Yr oedd y pwyllgor safonau wedi canfod bod y cynghorydd wedi torri'r paragraffau canlynol o'r Cod Ymddygiad drwy anfon llythyr at gyn-gyflogai gan dynnu darlun anghywir ac annheg o wrandawriad apêl cwyn:

- Rhaid i chi ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill (paragraff 4 (b)).
- Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod (paragraff 6 (1) (a)).

Gwnaeth y cynghorydd gais am ganiatâd i apelio i'r Llywydd. Caniatawyd i'r apêl fynd rhagddi ar y sail bod y pwyllgor safonau yn anghywir yn barnu bod y cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad a bod y gosb a roddwyd yn rhy lem.

Daeth y Tribiwnlys Apêl i benderfyniad unfrydol fod y cynghorydd wedi portreadu gwrandawriad apêl cwyn yn anghywir ac yn annheg a'i fod wedi torri'r Cod Ymddygiad. Cyfeiriodd y mater yn ôl at y pwyllgor safonau gydag argymhelliad y dylid atal y cynghorydd o'i swydd am 3 mis.

Adran 4 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid

Arolwg boddhad cwsmeriaid

Mae PDC yn gwneud ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau i gwsmeriaid, a'i nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn.

Yn ystod 2016-2017, dosbarthodd PDC arolwg boddhad cwsmeriaid ar gwblhau achosion. Mae adborth yr arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus PDC, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i PDC eu gwella.

Derbyniwyd 2 ffurflen wedi'i llenwi yn ystod 2016-2017. O blith y rhain roedd:

- 100% o'r ymatebion a lenwyd yn dweud bod PDC wedi ymateb yn brydlon;
- 100% o'r ymatebion a lenwyd yn dweud bod PDC yn gwrtais ac yn barod i helpu;
- 100% o'r ymatebion a lenwyd yn dweud eu bod yn fodlon â'r wybodaeth a dderbyniwyd;
- 100% o'r ymatebion a lenwyd yn dweud eu bod yn gallu deall y broses;
- 100% o'r ymatebion a lenwyd yn dweud eu bod wedi canfod y wybodaeth yn y ffurflenni arweiniad yn ddefnyddiol; a
- 100% o'r ymatebion a lenwyd yn dweud ein bod wedi prosesu'r achos yn effeithlon.

Adran 5 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes 2017-2018

Mae'n bwysig bod PDC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn ymwneud â'r modd y bydd PDC yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n cwsmeriaid.

Blaenoriaethau Busnes 2017-2018

- Rhoi sylw i'r gofyniad am aelodau cyfreithiol newydd i PDC gyda golwg ar gynyddu amrywiaeth ei aelodaeth.
- Penodi Dirprwy Lywydd i PDC.
- Cynllunio a chynnal digwyddiad hyfforddi i'r holl aelodau.
- Rhoi system werthuso newydd ar waith i'r holl aelodau.
- Parhau i fonitro a diweddarau gwefan PDC i gynnwys dulliau cyfathrebu heb fod yn rhai ysgrifenedig.
- Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, bodloni dangosyddion perfformiad allweddol ac ymateb i adborth ar arolygon boddhad cwsmeriaid.

Adran 6 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant am 2016-2017

Gwariant am 2016-2017

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau'r aelodau ar gyfer achosion tribiwnlys*	£32,000
Digwyddiadau'r Tribiwnlys (costau gwrandawiadau)*	£6,000
Cyfanswm	£38,000

* wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf